**Eitem ar yr agenda: 3(i)**

## AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU

Dyma gofnodion y cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Iau 26[ain] Awst 2004 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl. Dechreuodd y cyfarfod am 11:30 y bore.

**Yn bresennol:**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol); S Morris (Swyddog Prosiectau); a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Hanks | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) |

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod cyntaf o'r Panel Gweithredol yn dilyn etholiadau'r awdurdodau lleol. Rhoddodd groeso cynnes iawn i nifer o aelodau newydd a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf o'r Panel. Cyfeiriodd y Clerc yr aelodau at ei lythyr dyddiedig 6 Awst 2004, a anfonwyd gyda chopïau o gylch gwaith pwyllgorau'r Awdurdod Tân, cyn rhoi gorolwg iddynt o swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Panel Gweithredol.

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd fod dwy eitem wedi cael eu cyflwyno i'w hystyried:

i. Recriwtio diffoddwyr tân rhan amser
ii. Protocol ar gyfer ymweliadau cynrychiolwyr gwleidyddol â lleoliadau'r gwasanaeth tân ac achub

Holodd y Cynghorydd W J Chorlton pam fod eitem fusnes 13, ynghylch y diweddaraf am y berthynas ddiwydiannol, wedi cael ei chynnwys dan fusnes Rhan II. Dywedodd y Prif Swyddog Tân a'r Clerc nad oedd y swyddogion yn gwybod, wrth lunio'r agenda fusnes, beth fyddai natur yr wybodaeth a fyddai'n cael ei adrodd i'r aelodau. Dywedodd y Clerc fod y ddeddfwriaeth yn caniatáu trafod y mater dan fusnes Rhan II oherwydd fod yr wybodaeth yn ymwneud ag anghydfod diwydiannol. Roedd y Cynghorydd Chorlton o'r farn y dylid bod wedi cynnwys yr eitem dan fusnes Rhan 1 ar y dechrau ac os oedd angen ar y diwrnod, ei symud i Ran II.

Aeth y Cadeirydd yn ei flaen i ddweud wrth y Panel y byddai, oherwydd canlyniad cyfarfod o Gadeiryddion/Deiliaid Portffolio'r holl awdurdodau tân ym Mhrydain y diwrnod cynt yn Llundain, lle bu'n bresennol, yn diweddaru'r aelodau yma dan fusnes Rhan I. Aeth yn ei flaen i esbonio fod Brendan Barber, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngres yr Undebau Llafur, wedi cael y gwaith o ail-lunio geiriad yr adran yn y Llyfr Llwyd oedd yn ymdrin ag "amser sefyll i lawr" – yr unig fater o bwys oedd yn rhwystro cwblhau camau 2 a 3 o'r "Cytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth". Yn y cyfarfod y bu iddo ei fynychu y diwrnod cynt, roedd y cynrychiolwyr wedi argymell y dylai'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Brigadau Tân Awdurdodau Lleol (NJC) gymeradwyo'r drafft diwygiedig. Roedd y Cyd-Gyngor i fod i ystyried yr argymhelliad y diwrnod hwnnw ac, o dderbyn eu cymeradwyaeth, y gobaith oedd y byddai'r anghydfod yn dod i derfyn yn foddhaol. Roedd ychydig o eitemau eraill yn dal heb eu llwyr gytuno. Roedd hyn yn cynnwys cytundeb ar gyfansoddiad newydd i'r Cyd-Gyngor a rhai materion eraill yn ymwneud â gweithdrefnau disgyblaethol. Roedd ochr y Cyflogwyr wedi cytuno hefyd, mewn egwyddor, i ddefnyddio amserlen wahanol ar gyfer cwblhau'r drefn wirio ar gyfer awdurdodau yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

Holodd y Cynghorydd W J Chorlton a wnaed unrhyw gynnydd, yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Tân yn ei gyfarfod 19 Gorffennaf 2004, ar enwebiadau cynrychiolwyr yr awdurdodau tân yng Nghymru ar wahanol gyrff gan gynnwys y Cyd-Gyngor, ac a fyddai'r cynrychiolydd ar hwnnw yn dod i

gyfarfod o Awdurdod Tân Gogledd Cymru i roi'r diweddaraf i'r aelodau ar y materion cyfredol. Dywedodd y Cadeirydd fod yr enwebiadau yma yn dal i ddisgwyl cadarnhad ffurfiol a bod cyfarfod o Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru wedi ei drefnu ar 2 Medi 2004 at y diben yma. Addawodd adrodd ynghylch canlyniad y cyfarfod i'r Awdurdod.

**Trychineb Boscastle:** Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod y Dirprwy Brif Swyddog Tân wedi cysylltu â Brigâd Dân Cernyw i cynnig cymorth ac adnoddau yn ystod y llifogydd yn Boscastle. Roedd Brigâd Dân Cernyw yn ddiolchgar am y cynnig ond ni fu angen am adnoddau o Ogledd Cymru arnynt.

Awgrymodd y Cynghorydd David Jones mai peth priodol fyddai anfon llythyr ar ran yr Awdurdod Tân at Gyngor Sir Cernyw i gydymdeimlo â thrigolion Boscastle, ac i longyfarch pawb a chwaraeodd ei ran yn achub pawb. Felly:

***Penderfynwyd: - y dylid anfon llythyr at Gyngor Sir Cernyw, ar ran Awdurdod Tân Gogledd Cymru, i gydymdeimlo â thrigolion Boscastle ac i longyfarch pawb a chwaraeodd ei ran yn achub pawb***

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 20fed Mai 2004
ii. cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 4ydd Mehefin 2004

***Penderfynwyd: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

## 4) Materion yn codi

Cafodd y pwynt canlynol ei godi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Mai 2004:

**Tud. 2 – Lwfansau ar gyfer Aelodau Awdurdodau Tân:** Rhoddodd y Clerc wybod i'r aelodau fod llythyr wedi ei dderbyn oddi wrth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth y Cynulliad, Mrs Sue Essex AC, yn dilyn y cyfarfodydd roedd wedi eu cynnal gyda chynrychiolwyr o Awdurdod Tân Gogledd Cymru a Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru. Roedd y llythyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r awdurdodau tân am hynt Rheoliadau Llywodraeth Leol (Lwfansau ar gyfer Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 drafft. Yna darllenodd y Cadeirydd lythyr y Gweinidog i'r Panel. Roedd y llythyr yn nodi, ymhlith pethau eraill, na fyddai aelodau oedd ar hyn o bryd yn derbyn lwfansau am wasanaethu fel aelodau o gabinet neu fyrddau eu hawdurdodau cyfansoddol eu hunain yn cael eu rhwystro rhag derbyn lwfans os y caent eu hethol yn ddeiliaid swyddi gydag awdurdod tân; sef pwynt roedd yr Awdurdod wedi lobïo'n ddiflino yn ei gylch. Er hynny, roedd y Gweinidog yn dweud yn ei llythyr nad oedd yn barod i ôl-ddyddio taliadau unrhyw lwfansau,

gan fod y cyngor a dderbyniodd yn pwysleisio nad oedd ganddi'r pwerau cyfreithiol angenrheidiol i awdurdodi unrhyw daliadau ôl-ddyddiedig. Dywedodd y Cadeirydd fod y penderfyniad i anfon copi o'i lythyr diwethaf at y Gweinidog at bob Aelod Cynulliad yng Ngogledd Cymru wedi ennyn cryn ddiddordeb a chefnogaeth gan AC o bob plaid.

Dywedodd y Clerc wrth y Panel ei fod wedi derbyn llythyr arall gan y Gweinidog yn dweud mai ei bwriad oedd gosod y rheoliadau diwygiedig gerbron y Cynulliad ar 21ain Medi 2004. Roedd trafodaeth ar y rheoliadau drafft diwygiedig wedi ei drefnu ar gyfer sesiwn lawn y Cynulliad ar 28ain Medi, gyda'r rheoliadau i ddod i rym ar 29ain Medi 2004. Roedd y Gweinidog wedi addo anfon copi o'r rheoliadau drafft diwygiedig ato cyn y dyddiad cyhoeddi ar 21ain Medi; hyd yn hyn ni ddaeth copi i law. Cafodd yr aelodau wybod gan y Clerc fod ganddo'n dal amheuon ynghylch amharodrwydd y Gweinidog i ôl-ddyddio'r lwfansau, gan fod hawl gan gynghorau sir i ôl-ddyddio taliadau i 1af Ebrill y flwyddyn ariannol bresennol. Pan dderbyniai y rheoliadau drafft diwygiedig, a phe gwelai anghysonderau gyda dymuniadau'r Awdurdod, byddai'n cysylltu â'r AC i ofyn i welliannau i'r rheoliadau drafft diwygiedig cael eu cynnig cyn y drafodaeth a drefnwyd ar gyfer y sesiwn lawn o'r Cynulliad.

I ateb cwestiwn ynghylch a fyddai, petai'r ôl-ddyddio'n cael ei ganiatáu, gan gyn-aelodau o'r awdurdod tân cyn yr etholiadau lleol hawl i dderbyn unrhyw ôl-daliadau, dywedodd y Clerc nad oedd yn rhagweld y byddai ganddynt hawl i daliadau o'r fath.

**5) Cytundeb Cyflog ac Amodau'r Gwasanaeth Tân: Adroddiad Gwirio Lleol Cam 2**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr David Jones a Mr Mark Roberts o'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru i'r cyfarfod i gyflwyno eu hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw). Dan Adran 33 o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998, roedd y Comisiwn wedi cytuno i gynnal astudiaeth asesu ar hynt yr Awdurdod wrth roi moderneiddio'r Gwasanaeth Tân ar waith yn unol â'r newidiadau amlinellwyd yn y Cytundeb Cyflog ac Amodau y Gwasanaeth a'r Papur Gwyn "Our Fire and Rescue Service". Cafodd y canfyddiadau dan Gam 1 eu hadrodd i'r aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth. Roedd yr adroddiad presennol yn rhestru canfyddiadau'r ail gam o'u gwaith. Pwysleisiodd Mr Jones na fyddai'r Comisiwn yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch a ddylai cam 3 o'r dyfarniad cyflog gael ei weithredu.

Yna, rhestrodd Mr Mark Roberts nodau ac amcanion Cam 2 yr astudiaeth, a'r cynnydd roedd Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi ei wneud yn erbyn pob amcan a osodwyd, ynghyd â'r cynnydd a wnaed ers cwblhau archwiliad gwirio Cam 1. Esboniodd na allai awdurdodau tân yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, gael eu hasesu ar eu cynnydd yn eu cyraeddiadau wrth ad-drefnu eu strwythurau ar sail ranbarthol, gan fod hyn eisoes wedi digwydd yng Nghymru pan ad-drefnwyd llywodraeth leol yn 1996. Esboniodd Mr Roberts fod 8 maes allweddol wedi cael eu mesur, sef y Cynllun Integredig Rheoli Risg, cymathu

“Rheng i Rôl”, y System Datblygiad Personol Integredig (IPDS), goramser, systemau dyletswydd, gweithio’n rhan amser, yr agenda foderneiddio a’r ddiagnosteg ariannol.  Aeth yn ei flaen i restru canfyddiadau’r Comisiwn ar bob maes, a’r fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu cyrhaeddiad yr Awdurdod. Dywedodd Mr Roberts fod y Comisiwn wedi dod i’r casgliad bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn y rhan fwyaf o’r meysydd ac felly roedd mewn sefyllfa o feddiannu’r tir canol; sef y sefyllfa roedd y rhan fwyaf o awdurdodau ynddo ar hyn o bryd.  Roedd hyn yn gyrhaeddiad i’w gymeradwyo o ystyried yr amserlen dynn a osodwyd ar gyfer y drefn wirio.  Roedd yr Awdurdod wedi ceisio gweithredu newidiadau yn y systemau dyletswydd criw dydd, ond roedd wedi methu mynd yn ei flaen gyda’r newidiadau yma ar hyn o bryd oherwydd y sefyllfa o ran y berthynas ddiwydiannol yn genedlaethol.  Roedd y Comisiwn hefyd o’r farn fod yr Awdurdod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o safbwynt gweithio’n rhan amser ac wedi ystyried costau a manteision posib goramser.  O safbwynt y ddiagnosteg ariannol, roedd y Comisiwn o’r farn fod y cynnydd hyd yn hyn yn ddigonol ac roedd yn cydnabod y ffaith fod yr Awdurdod yn dal heb dderbyn unrhyw arian pontio.  Dywedodd Mr Roberts hefyd y byddai’r Awdurdod, yn dilyn datganoli’r cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân yng Nghymru i’r Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn Rhaglen Wella Cymru ac nid cyfundrefn yr Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr fel yn Lloegr.  O ganlyniad byddai’n anos cymharu awdurdodau tân Cymru gyda rhai Lloegr.

Dywedodd Mr David Jones fod yr adroddiad yn cynnwys rhai argymhellion oedd wedi eu bwriadu i gynorthwyo’r Awdurdod i adeiladu ar y cynnydd hyd yn hyn. Byddai cynnydd yn y dyfodol yn erbyn yr argymhellion yma yn cael eu monitro trwy’r drefn archwilio arferol.  I gloi, diolchodd i holl aelodau a staff yr Awdurdod am eu cymorth a’u cydweithrediad yn ystod y drefn wirio.

Yna, cafodd yr aelodau gyfle i holi Mr Jones a Mr Roberts, ac atebwyd y cwestiynau a godwyd.  Wrth ateb y cwestiynau dywedodd y ddau nad oedd unrhyw ddarpariaeth arbennig wedi ei chynnwys yn eu canfyddiadau am gost dwyieithrwydd gan y byddai’r gost yma’n cael ei chynnwys yn narpariaeth gyllidebol yr Awdurdod ar gyfer cyflawni ei fusnes o ddydd i ddydd.  Roedd y ddau o’r farn fod yr holl staff roeddynt wedi eu cyfweld yn ystod y drefn wirio wedi bod yn agored ac yn onest yn eu sylwadau a’u hatebion.  Rhoddasant wybod i’r Panel eu bod wedi siarad â staff llawn amser a rhan amser, aelodau o’r Awdurdod, cynrychiolwyr staff a chynrychiolwyr o’r gwasanaethau brys eraill. Roeddynt hefyd wedi derbyn sylwadau ysgrifenedig yn ystod y drefn wirio. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda’r archwilwyr oedd yn cynnal gwiriadau’r awdurdodau tân eraill yng Nghymru er mwyn sicrhau cysondeb yn y ffordd yr aethpwyd ati a chysondeb rhwng y canfyddiadau mewn meysydd lle roedd cydweithio wedi cymryd lle, megis IPDS.

Diolchodd y Cadeirydd  i’r ddau am ddod i gyflwyno eu canfyddiadau, ac am fod yn barod i ateb cwestiynau’r aelodau.

## 6) Cynllun Integredig Rheoli Risg 2

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am ofynion ail flwyddyn y drefn Cynllunio Integredig Rheoli Risg ac i awgrymu meysydd ar gyfer datblygu ac edrych ymhellach arnynt, cyn ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân ym mis Medi. Aeth yn ei flaen i roi gwybodaeth gefndirol ynghyd ag amlinelliad o drefn y Cynllun Risg i aelodau newydd, a dywedodd y byddai angen i'r cynlluniau yn y dyfodol gael eu seilio ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru gan y Cynulliad, nas cyhoeddwyd eto. Pwysleisiodd nad oedd yn ofyniad yn ystod ail flwyddyn y Cynllun Risg i ailysgrifennu'r cynllun. I ateb cwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch a fyddai o gymorth i'r aelodau newydd gael cyfarfod arall ar gyfer ymdrin yn benodol â'r Cynllun Risg, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod yr amserlen ar gyfer llunio ac ymgynghori ar gynllun gweithredu'r ail flwyddyn yn dynn iawn, ac y byddai'n anodd tu hwnt trefnu cyfarfod o'r fath. Addawodd i anfon copi o Gynllun Risg cyntaf yr Awdurdod i'r aelodau newydd a chadarnhaodd y byddai ef a'r uwch swyddogion eraill yn barod i ateb unrhyw gwestiynau a fyddai'n codi o'r ddogfen. Cafodd aelodau'r Panel hefyd wybod gan y Prif Swyddog Tân y byddai sesiwn ar drefn y Cynllun Risg yn cael ei chynnal yn y Seminar i Aelodau Awdurdodau Tân Cymru ar 2 Medi, ac roedd y rhan fwyaf o'r aelodau wedi datgan eu bwriad i fynychu'r seminar yma.

Yna, rhoddodd y Prif Swyddog Tân wahoddiad i Mr Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) i fanylu ar y pwyntiau oedd yn yr adroddiad. Esboniodd Mr Claydon yn fanwl bob prif faes oedd yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y byddai datblygu'r meysydd penodol yma yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cadw o fewn ei amcanion strategol ei hun a hefyd yn cadw at y gofynion oedd yn nogfen y Fframwaith Cenedlaethol drafft ar gyfer Cymru. Pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) mai diben y cynllun gweithredu ail flwyddyn oedd ategu ac adeiladu ar y Cynllun gwreiddiol ac nid ei ddisodli mewn unrhyw ffordd. Addawodd hefyd gyflwyno adroddiad i roi'r diweddaraf i'r cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol yn rhestru'r hynt hyd yn hyn ar weithredu'r bwriadau oedd yng nghynllun gweithredu'r flwyddyn gyntaf. Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân fod Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) a'r Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau tân, lle bo'n bosib, gydweithio ac edrych ar ba mor bosib oedd mentrau ar y cyd gyda gwasanaethau brys eraill er mwyn sicrhau canlyniadau ar y cyd, tra'n dal i gadw eu hunaniaeth benodol eu hunain.

I ateb cwestiynau'r aelodau, esboniodd Mr Claydon mai'r rheswm pam nad oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Glannau Merswy wedi ei gynnwys ar y rhestr o wasanaethau tân ac achub cyfagos y byddai'r Awdurdod yn gwneud y mwyaf o gydweithio a rheoli risg mewn perthynas a'u cynlluniau gweithredu oedd gan nad oedd Gogledd Cymru yn rhannu ffin ddaearyddol â Glannau Merswy. Er hynny, byddai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau â'r berthynas weithio wych oedd ganddo gyda Glannau Merswy. Felly:

***Penderfynwyd:* -**

***i. nodi cynnwys yr adroddiad; ac***
***ii. y dylid cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 20fed Medi 2004 yn rhestru'r meysydd arfaethedig ar gyfer eu datblygu a'u hystyried ymhellach, ac argymell bod yr Awdurdod yn dirprwyo ei bwerau, i ymgymryd â'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu'r Cynllun Risg ar gyfer 2005/06 i'r Panel Gweithredol, ar ei ran***

Yn y fan hon cafodd yr aelodau wybod bod newyddion wedi dod i law yn dweud bod y Cyd-Gyngor wedi cytuno i'r geiriad newydd ar yr "amser sefyll i lawr" yn y Llyfr Llwyd. Deuai hyn a'r bygythiad o weithredu diwydiannol gan Undeb yr FBU i ben. Roedd yr aelodau'n falch fod yr anghydfod wedi cael ei ddatrys o'r diwedd a bod cytundeb wedi ei wneud oedd yn dod â chanlyniad boddhaol i'r ddwy ochr.

**7) Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r Panel am ddarpariaethau'r Ddeddf a'r amserlen ar gyfer ei rhoi ar waith. Cyn rhestru'r pwyntiau oedd yn ei adroddiad, er budd yr aelodau newydd, rhoddodd y Clerc orolwg o'r gwaith roedd y Panel Gweithredol wedi ei wneud yn lobïo ar Fesur y Gwasanaethau Tân ac Achub ar ran yr Awdurdod Tân. Aeth yn ei flaen i esbonio, er bod y llwyddiannau fel a restrwyd yn yr adroddiad wedi bod yn gyfyngedig, roedd y gwahanol gymalau wedi cael eu cwestiynu a'r safbwyntiau wedi cael eu lleisio cyn i'r Mesur dderbyn Cydsyniad Brenhinol ar 22 Gorffennaf 2004. Esboniodd y Clerc fod y ffocws bellach wedi symud tuag at roi'r Ddeddf ar waith. Roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud ei safbwyntiau'n glir: nid oedd yn bwriadu dilyn arferion Lloegr ym mhob maes o waith y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru, ond yn hytrach roedd yn dymuno datblygu arferion oedd yn ateb anghenion y Gwasanaeth yng Nghymru. Dywedodd y Clerc fod y wybodaeth ddiweddaraf a dderbyniodd yn awgrymu bod Llywodraeth Prydain yn bwriadu dechrau'r Ddeddf yn Lloegr yn ystod Medi 2004. O wneud ymholiadau gyda Llywodraeth y Cynulliad, cafodd wybod nad oedd dyddiad penodol wedi ei roi ar gyfer ei dechrau yng Nghymru, ond na ddylai fod lawer hwyrach na'r dyddiad dechrau yn Lloegr. Cafodd y Panel wybod gan y Clerc fod y Prif Swyddog Tân a'r Cadeirydd, ynghyd â Phrif Swyddogion Tân a Chadeiryddion yr Awdurdodau Tân eraill yng Nghymru wedi cael ei galw i gyfarfod gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad, Mrs Edwina Hart AC, ar 13 Medi 2004 gyda'r bwriad o drafod yr amserlen ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith yng Nghymru. Aeth y Clerc yn ei flaen i esbonio fod y Pwyllgor Gwerth Gorau, yn ei gyfarfod yn gynharach y diwrnod hwnnw, wedi codi pwynt dilys ynghylch dyddiad dechrau'r Ddeddf yng Nghymru – petai'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu dechrau'r Ddeddf yng Nghymru yn hwyrach nag yn Lloegr, byddai'n achosi i'r ODPM fod â'r cyfrifoldeb am wasanaethau tân ac achub dan ddwy ddeddfwriaeth wahanol. Felly:

***Penderfynwyd : -***

*i.* ***nodi darpariaethau Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 a'r wybodaeth arall oedd yn yr adroddiad; a***
*ii.* ***gofyn i'r Clerc gofnodi pryderon yr Awdurdod gyda Llywodraeth y Cynulliad ynghylch y trafferthion a allai godi i'r ODPM petai'r Ddeddf yng Nghymru yn cael ei dechrau yn hwyrach nag yn Lloegr***

**8) Rheolau Sefydlog**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Panel roi ystyriaeth ynghylch a ddylid newid rheolau sefydlog yr Awdurdod yn ymwneud â chadeirio pwyllgorau, ac i gymryd ystyriaeth o'r ffaith fod y Pwyllgor Safonau yn bodoli. Esboniodd fod Rheolau Sefydlog yr Awdurdod i'w gweld yn cynnwys rhai anghysonderau oedd yn groes i arferion presennol yr Awdurdod ynghylch cadeirio pwyllgorau ac a oedd hefyd yn gwrthdaro â'r ddeddfwriaeth oedd yn rheoli gwaith pwyllgorau safonau. Yn achos yr olaf y ddeddfwriaeth fyddai cael y flaenoriaeth. Dywedodd y Clerc wrth y Panel fod ei awgrymiadau ar sut y gallai'r Awdurdod ddatrys yr anghysonderau hyn orau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ar gyfer eu hystyriaeth. Wedi ystyried yr adroddiad:

***Penderfynwyd: -***

*i.* ***derbyn cyngor y Clerc; a***
**ii.** ***gofyn iddo lunio gwelliannau, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, ar yr opsiynau a ffafriwyd fel a nodwyd ym mharagraffau 5.3 a 6.2 o'r adroddiad; a***
**iii.** ***bod y gwelliannau'n cael eu cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod Tân ar 20fed Medi 2004 i'w cynnig yn ffurfiol a'u gohirio ar gyfer trafodaeth***

**9) Cyfleuster Hyfforddiant Dolgellau**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i aelodau'r Panel fod y gwaith o ailfodelu a gwneud estyniad i Orsaf Dân Dolgellau wedi ei gwblhau, ond wedi costio mwy na'r ddarpariaeth yn y gyllideb o fwy na 10%. Esboniodd fod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r aelodau yn unol â'r gofyniad oedd yn Rheolau Sefydlog Ariannol a Chytundebol yr Awdurdod ynghylch unrhyw gontract lle roedd y gost derfynol yn uwch na'r ddarpariaeth yn y gyllideb o 10% neu fwy. Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân fod yr holl fanylion perthnasol, gan gynnwys y costau ychwanegol, wedi eu rhestru yn yr adroddiad a'r atodiad. Felly:

***Penderfynwyd: - nodi cynnwys yr adroddiad***

**10) Materion Brys**

**(i) Recriwtio Diffoddwyr Tân Rhan Amser:** Dywedodd y Cynghorydd W J Chorlton fod rhywun wedi tynnu ei sylw at y ffaith fod dwy orsaf dân ran amser yn ei ardal yn wynebu trafferthion wrth recriwtio staff, a gofynnodd a oedd unrhyw fesurau'n cael eu cymryd i geisio cywiro'r sefyllfa. Dywedodd y Prif Swyddog Tân, yn dilyn y Cytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth oedd yn cynnwys diffiniad newydd o ofal rhan-amser llawn-amser a oedd wedi cael effaith andwyol ar gyllideb yr Awdurdod, fod gwaharddiad dros dro wedi ei osod ar recriwtio diffoddwyr tân rhan amser. Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod dull newydd yn seiliedig ar risg yn mynd i gael ei defnyddio ar gyfer recriwtio diffoddwyr tân rhan amser. Golygai hyn y byddai diffoddwyr tân rhan amser yn cael eu recriwtio i gyd-fynd â'r amser yr oedd eu hangen ynghyd a pha mor agos oedd gorsafoedd tân eraill. Aeth yn ei flaen i esbonio fod y dull yma wedi cael ei drafod gyda swyddogion yr FBU yr wythnos cynt, ac roeddynt wedi addo adrodd yn ôl gyda'u cynigion erbyn 15fed Medi 2004. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y prinder diffoddwyr tân rhan amser yn bod nid yn unig oherwydd y cyfyngiadau ariannol, ffactor arall oedd prinder staff addas ar gael yn nalgylch rhai gorsafoedd ar yr amseroedd priodol. Felly, byddai angen gwneud unrhyw waith recriwtio ar sail gyfannol. I ateb sylw y byddai'n rhaid i'r Awdurdod wneud darpariaeth ariannol ar gael ar gyfer recriwtio'r staff angenrheidiol, dywedodd y Trysorydd y byddai'n rhaid i'r aelodau eu hunain wneud unrhyw benderfyniad i adolygu'r gyllideb gan fod yr Awdurdod eisoes wedi cymeradwyo ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Wedyn, petai unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud, a gan nad oedd hawl cyfreithiol gan awdurdodau tân cyfunol i ddal cronfeydd wrth gefn, ni fyddai gan yr Awdurdod wedyn unrhyw ddewis ond mynd at yr awdurdodau cyfansoddol i ofyn am gyfraniadau ychwanegol.

**(ii) Y Protocol ar ymweliadau gan wleidyddion i leoliadau'r gwasanaeth tân ac achub -** Holodd y Cynghorydd W J Chorlton pam y cafodd penderfyniad ei wneud fod raid i unrhyw wleidydd oedd yn dymuno ymweld â gorsaf dân roi o leiaf 28 niwrnod o rybudd cyn unrhyw ymweliad. Roedd o'r farn fod protocolau o'r fath yn cyfyngu ar hawliau'r aelodau. Dywedodd y Prif Swyddog Tân fod yr wybodaeth a roddwyd i'r gorsafoedd tân wedi cael ei gamddehongli. Roedd y gofyniad i roi 28 niwrnod o rybudd i ymweliadau gan wleidyddion i orsafoedd tân a lleoliadau tebyg yn ymwneud ag ymweliadau gan AC, AS neu wleidyddion cenedlaethol neu Ewropeaidd eraill, nid oedd yn berthnasol i aelodau lleol o'r Awdurdod Tân oedd am ymweld â'u gorsaf dân leol. Ar ddau achlysur gwahanol yn ddiweddar derbyniwyd ceisiadau gan wleidyddion cenedlaethol yn gofyn am ymweld â gorsafoedd tân ar fyr rybudd. Bellach, roedd Swyddogion wedi llunio protocol oedd yn gofyn am gyfnod o 28 niwrnod o rybudd er mwyn medru edrych ar ymrwymiadau'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r aelodau lleol er mwyn trefnu a chydlynu ymweliadau o'r fath. Roedd croeso i unrhyw

aelod oedd yn dymuno ymweld â'u gorsaf dân leol wneud hynny ond gofynnid iddynt gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Aelodau er mwyn sicrhau fod trefniadau yn cael eu gwneud fel bod o leiaf un aelod o staff yn yr orsaf i'w croesawu.

**11) Dyddiad(au) cyfarfodydd i ddod**

Wedi trafodaeth:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cynnal y cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol ddydd Llun 18$^{fed}$ Hydref 2004 am 10 y bore ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl***

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau mai'r argymhelliad oedd trafod gweddill yr eitemau busnes ar yr agenda heb y Wasg a'r Cyhoedd yn bresennol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 yn cael ei datgelu iddynt.***

**<u>PART II</u>**

**12) Hen Orsaf Dân Llanfairfechan**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Panel ystyried y cynnig i brydlesu safle hen Orsaf Dân Llanfairfechan. Aeth yn ei flaen i roi gwybod i'r aelodau fod yr adroddiad oedd o'u blaenau yn cynnwys yr wybodaeth bellach roeddynt wedi gofyn amdano gan y tenant/prynwr arfaethedig ar gyfer safle'r hen orsaf dân, gan gynnwys y cynllun busnes. I ateb cwestiwn ynghylch a fyddai'r tenant yn cael gwneud unrhyw newidiadau strwythurol i'r adeilad tra roedd ar brydles gan yr Awdurdod; dywedodd y Clerc fod hyn yn cael ei drin yn y cytundeb prydlesu fel a nodwyd yn atodiad 1 i'r adroddiad. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo prydlesu hen Orsaf Dân Llanfairfechan i Ymddiriedolaeth Ddatblygu Cwmni Penllan Cyf., gyda'r dewis o gymeradwyo ymhellach naill ai ymestyn y brydles neu werthu'r safle (p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf) pan fyddai'r sefyllfa'n codi yn y dyfodol***

**13) Y Diweddaraf ynglŷn â'r berthynas ddiwydiannol**

Roedd yr eitem fusnes yma eisoes wedi ei thrin dan eitem fusnes rhif 2.

Daeth y cyfarfod i ben am 1:35 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 18 Hydref, 2004